**Y Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 17-02(p7)**

**Dyddiad:** **28 Tachwedd 2002**
**Amser:** **9.00am – 12.30pm**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **Adolygiad Pum Mlynedd Bwrdd Croeso Cymru - Yr Adroddiad Terfynol Drafft**

## Diben

1. Ymgynghori â'r Pwyllgor ynghylch yr Adroddiad Terfynol drafft ar Adolygiad Pum Mlynedd Bwrdd Croeso Cymru. Mae Rheol Sefydlog 9.7 yn darparu bod y pwyllgorau pwnc yn adolygu'n rheolaidd y swyddogaethau cyhoeddus a gyflawnir gan gyrff cyhoeddus yn eu maes. Ar ôl derbyn yr Adroddiad Terfynol a chlywed barn y Pwyllgor, bydd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn hysbysu'r Cabinet o ganfyddiadau'r Adroddiad ac yna'n cyhoeddi ymateb Llywodraeth y Cynulliad. Y bwriad yw rhoi cyfle i'r Aelodau ei drafod yn y Cyfarfod Llawn cyn y caiff yr adolygiad ei gwblhau'n derfynol.

## Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor yn gwneud sylwadau am ganfyddiadau'r Adroddiad Terfynol drafft a welir yn Atodiad A. Nodir Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn Atodiad 1 i'r Adroddiad ei hun.

## Y Cefndir

3. Comisynodd y Prif Weinidog a'r Gweindog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a'r Cymunedau Adolygiad Pum Mlynedd Bwrdd Croeso Cymru yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2001 ar ôl iddynt ymgynghori â'r Pwyllgor ynghylch y Cylch Gorchwyl.

4. Yn ystod cam cyntaf yr Adolygiad, lluniwyd Adroddiad Interim a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Mai. Yn dilyn hyn, cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a'r Cymunedau ar y prif argymhellion, sef y dylai'r Bwrdd Croeso barhau i fodoli yn ystod y cyfnod hwn tan yr adolygiad nesaf, gan gadw'r un cyfansoddiad sydd ganddo ar hyn o bryd. Comisiynodd y Gweinidogion hefyd ail gam yr adolygiad, sy'n ymdrin ag effeithiolrwydd strategol a llywodraethu corfforaethol. Cytunwyd i wneud mwy o waith er mwyn ystyried argymhellion sy'n deillio o gam cyntaf yr Adroddiad yn ymwneud â Chynllun Cymorth i Fuddsoddi y Bwrdd Croeso o dan Adran 4. Mae'r Pwyllgor bellach yn ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwnnw a'r argymhellion yn yr Adolygiad Terfynol drafft.

## Yr Adroddiad Terfynol

5. Amgaeir yr Adroddiad Terfynol drafft yn Atodiad A. Mae'n gwneud 23 o argymhellion sy'n cael eu disgrifio yn y Crynodeb Gweithredol (tt 3-8). Mae canfyddiadau'r adolygiad yn deillio o'r ymgynghori a fu â chyrff perthnasol a phartneriaid yn ogystal ag â swyddogion y Bwrdd Croeso. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad cyffredinol fod y Bwrdd Croeso yn gwneud cyfraniad mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys delio â chlwy'r traed a'r genau a darparu rhaglenni gydag arian o Ewrop. Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar lywodraethu corfforaethol ac yn gweld bod y trefniadau ariannol a'r trefniadau rheoli'n foddhaol, ac at ei gilydd, bod yr adroddiadau archwilio yn galonogol ond serch hynny, bod lle i wella.

6. Efallai bod angen cryfhau agweddau ar ei ddull o weithredu, fel gydag unrhyw gorff. Yn benodol, mae'r Adolygiad yn argymell bod angen cryfhau'r berthynas strategol rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Bwrdd Croeso ac y dylid sefydlu proses i nodi prosiectau buddsoddi strategol mewn meysydd gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Croeso er mwyn i gyrff y sector cyhoeddus wneud mwy i gydgysylltu'r buddsoddiadau. O ran llywodraethu corfforaethol, mae'r Adolygiad yn nodi bod angen adolygu'r strwythur a'r prosesau sy'n ymwneud â'r uwch reolwyr er mwyn cryfhau'r rôl sydd ganddynt o osod her, a bod angen lledaenu diwylliant ac arbenigedd y rheolwyr ariannol yn ehangach ar draws y corff. Mae yna hefyd argymhellion sy'n ymwneud â'r amser y mae aelodau'r Bwrdd yn ei roi a faint o gydnabyddiaeth ariannol y maent yn ei gael. O ran datblygu adnoddau dynol, mae'r Adolygiad yn argymell y dylid annog y Bwrdd Croeso i ymrwymo'n ffurfiol i ymgyrraedd at safon Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP).

7. Y prif gasgliad sy'n deillio o'r adolygiad o gynllun grant Adran 4 yw nad yw'n ymddangos bod rheswm ar hyn o bryd dros ei gyfuno â chynlluniau grant eraill megis Cymorth Rhanbarthol Dewisol. Yr argymhelliad felly yw y dylai'r Bwrdd Croeso ei gadw a'i ddarparu, fel sy'n digwydd yn awr, fel cynllun sectoraidd. Gwneir nifer o argymhellion i wneud y cynllun yn fwy effeithiol.

**Cydymffurfio**

8. Cynhaliwyd yr Adolygiad yn unol â chanllawiau sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer yr Adolygiad Pum Mlynedd. Yn ogystal â chymryd rhan yn yr Adolygiad, ymgynghorwyd â'r Bwrdd Croeso ynghylch materion ffeithiol.

**Camau i'r Pwyllgor eu Cymryd**

9. Gofynnir i'r Pwyllgor gyflwyno sylwadau am yr Adroddiad terfynol drafft cyn iddo gael ei gyflwyno'n ffurfiol i Weinidogion ei ystyried.

**Man Cyswllt**

Yr Is-adran Cynllunio Ariannol